## Ffurflenni Ystadegol Blynyddol Gwasanaethau Tân ac Achub

## Dangosyddion Perfformiad Strategol 2023-24

**Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth Cymru yn casglu'r data yma.**

Mae canllawiau wedi'u cynnwys i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language: Cymraeg/Welsh

**GWYBODAETH AM Y DARPARWR**

| | |
|---|---|
| Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared | Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared |
| Cofnodwch enw'r prif swyddog cyswllt sy'n ymwneud â'r ffurflen hon | |
| Cofnodwch rif ffôn y swyddog cyswllt yma | |
| Nodwch e-bost y swyddog cyswllt | |

### Dychwelwch y ffurflen trwy Objective Connect cyn 07/06/2024

https://secure.objectiveconnect.co.uk/

Ebost: Casglu.Data@llyw.cymru

| | |
|---|---|
| 0 | **Dangosyddion wedi'u cwblhau** |
| 7 | **Angen sylwadau** |

FRS/RRC/S/001 Digwyddiadau tân ac eraill y bu Awdurdod Tân ac Achub ynddynt.

FRS/RRC/S/002 Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân

FRS/EFR/S/003 Tanau wedi'u Cyfyngu i'r Ystafell Darddiad

Dydy dangosyddion FRS/RRC/S/003, FRS/RRC/S/004, FRS/EFR/S/001 a FRS/EFR/S/002 bellach yn cael ei gasglu.

Canllawiau

Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon

ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Fersiwn 1 - 07/03/16**

## Canllawiau technegol ar gyfer llenwi'r ffurflen



**Llywio**

Byddwch yn gallu symud o ddalen i ddalen trwy glicio ar yr hyperddolen briodol.

Er enghraifft, i ddychwelyd i'r hafan cliciwch yr hyperddolen "Yn ôl i'r Hafan".

Yn ôl at yr Hafan

**Eitemau data gofynnol**

Yn y daenlen hon, mae'r nodweddion canlynol i'r celloedd y mae angen data arnynt:

| | |
|---|---|
| | Bydd yr holl gelloedd y mae angen data arnynt yn cael eu lliwio'n las golau. |
| | Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn. |
| | Nid oes angen llenwi rhai celloedd am nad ydynt yn berthnasol. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd tywyll. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn. |

**Os nad ydych yn gallu rhoi unrhyw eitem o ddata, gadewch y gell yn WAG. Peidiwch â rhoi testun (NA, N/A neu Heb ei gasglu ac ati) yn unrhyw gell ar wahân i'r celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd bod sero mewn unrhyw gell yn golygu cyfrif o sero ar gyfer yr eitem ddata hon.**

**Sylwadau**

| | |
|---|---|
| | Mae gofod gwyn wedi cael ei ddarparu gerllaw pob tabl ar gyfer sylwadau. Os oes unrhyw eitemau data ar goll yna mae'n rhaid ychwanegu sylw i'r daenlen. |

**Dilysiad 1**

Mae dilysiad 1 yn cynnwys gwirio am wallau synnwyr cyffredin. Mae'n rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno'r daenlen trwy Objective Connect.

| | |
|---|---|
| √ | Bydd eitemau data sy'n llwyddo yn y dilysu yn cael eu lliwio'n wyrdd. |
| C | Bydd eitemau data lle nad oes data'n cael ei ychwanegu, neu sy'n torri rheol ddilysu, yn cael eu lliwio'n goch. Dylech roi sero lle mae'r eitem ddata yn ddim, neu roi sylw. |
| M | Bydd eitemau data sydd ar goll gyda sylw wedi ei roi yn cael eu lliwio'n ambr. |

**Dilysiad 2**

Mae Dilysiad 2 yn cynnwys cymharu gwybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol a chwilio am newidiadau mawr. Bydd y dilysiad yn nodi'r eitemau data sydd wedi newid o fwy na swm a ddiffinnir ymlaen llaw rhwng y blynyddoedd. Caiff yr eitemau data hyn eu nodi yng ngholofn D2 o'r daenlen.

| | |
|---|---|
| √ | Caiff eitemau data sy'n llwyddo yn y dilysiad eu lliwio'n wyrdd. |
| C | Mae angen i eitemau data sydd wedi newid mwy na 20% gynnwys esboniad am y newid. Mae'n rhaid i'r esboniadau gynnwys rhesymau am y newid ac nid dangos bod newid wedi digwydd neu gadarnhau y newid yn unig. |
| E | Mae angen egluro unrhyw eitemau data sydd wedi newid mwy na 20%<br>Dynodir hyn gan E yng ngholofn V2.<br>Mae'n rhaid i'r eglurhad gynnwys rhesymau dros y newid ac ni ddylai ddynodi y bu newid neu gadarnhau'r newid yn unig. |
| M | Caiff eitemau data lle mae esboniad wedi cael ei roi eu lliwio'n ambr. |

## Canllawiau'r GTA

**Darperir canllawiau manwl llawn am ddata digwyddiadau tân mewn canllawiau ar y System Cofnodi Digwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr adran Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Ar gyfer y dangosyddion hyn:

**FRS/RRC/S/001**

Mae tân adroddadwy yn golygu digwyddiad o losgi nad yw wedi'i reoli sy'n cynnwys fflamau, gwres neu fwg ac y bu'r Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yn bresennol ynddo.

Mae galwadau tân hwyr yn golygu tanau yr oedd yn hysbys eu bod wedi'u diffodd pan wnaed yr alwad (neu na fu galwad ynglŷn â hwy e.e. tân sy'n dod i sylw'r Gwasanaeth Tân ac Achub o ganlyniad i adroddiad yn y wasg neu gwest) a dylid cyfrif adnodd o'r GTA a fu'n bresennol ynddo.

Digwyddiadau Dros y Ffin – Dylid cofnodi pob digwyddiad y bu'r GTA yn bresennol ynddo. Ar gyfer digwyddiadau dros y ffin, rhaid i'r gwasanaeth tiriogaethol gynnwys pob digwyddiad yn ei ardal diriogaethol p'un a fu'n bresennol yn y digwyddiad neu beidio. Mae canllawiau pellach ar gofnodi digwyddiadau dros y ffin wedi'u llunio gan y 3 Gwasanaeth yng Nghymru.

Galwadau Diangen -
- Mae Galwadau Diangen Maleisus yn golygu galwadau a wnaed gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad oedd yn bodoli (y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth arbennig ill dau). Mae'n cynnwys bwriadau maleisus pwrpasol ac a amheuir. Fel yr adroddir drwy'r System Cofnodi Digwyddiadau a Datganiadau Ystadegau Gweithredol Blynyddol - OPSW6.

- Mae Galwadau Diangen a wnaed gyda Bwriad Da yn alwadau a wnaed gyda phob ewyllys da i sicrhau bod y GTA yn bresennol pan fo tân neu ddigwyddiad arall yr oedd rhywun yn credu go iawn ei fod yn mynd rhagddo, ond nad oedd mewn gwirionedd.

- Mae Galwadau Diangen oherwydd Cyfarpar yn alwadau sy'n cael eu cychwyn gan gyfarpar larymau tân a llethu tân sy'n gweithredu'n ddiangen (gan gynnwys pan fo personau'n cychwyn cyfarpar o'r fath yn ddamweiniol).

Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf): pan fo cerbyd a yrrir yn fecanyddol (e.e. car, lori neu feic modur) ar ffordd gyhoeddus neu mewn man cyhoeddus arall yn achosi difrod i eiddo neu gerbyd rhywun arall, neu'n peri bod unrhyw berson arall neu anifail yn cael ei anafu.

Eraill – mae'n cynnwys Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig y mae'r GTA yn darparu ymateb brys iddo, ac eithrio Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd, fel y nodir yng Nghwestiwn 3.3 yn System Cofnodi Digwyddiadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

**FRS/RRC/S/002**

Marwolaeth Dân – mae'n golygu person sydd wedi marw o ganlyniad i anafiadau a gafwyd yn y tân, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys, er enghraifft, bersonau sy'n marw oherwydd niwmonia a ddaw yn sgil llosgiadau neu fewnanadlu mwg, neu oherwydd bod y galon yn methu yn dilyn anafiadau o'r fath. Ni ddylid nodi marwolaethau o wrthdrawiadau trafnidiaeth sy'n cynnwys tân (ac eithrio yn achos personél y gwasanaeth tân) oni bai y cawsant eu hachosi gan (neu y credir iddynt gael eu hachosi gan) anafiadau sy'n gysylltiedig â thân.

At ddibenion cydgasglu data marwolaethau tân ar gyfer y dangosydd, dylai'r nifer gynnwys pob categori "Ie" a "Ddim yn gwybod" fel y nodir drwy Gwestiwn 9.21 y System Cofnodi Digwyddiadau (A oedd y farwolaeth/anaf yn gysylltiedig â thân?). Mae data Dangosyddion Perfformiad yn darparu "ciplun" mewn amser ac maent yn parhau fel y'u cofnodwyd ar adeg yr archwiliad a'r cyhoeddi dilynol. Dylid gwneud pob ymdrech i ganfod dyfarniad y crwner fel bod y wybodaeth mor gywir ag y bo modd ar adeg cydgasglu data marwolaethau tân at ddibenion cofnodi Dangosyddion Perfformiad. Dylid gwirio unrhyw ddyfarniadau diweddarach yn ôl y System Cofnodi Digwyddiadau gan ddiwygio yn os oes angen. Pan ddaw'r hyn a achosodd y farwolaeth yn glir o ganlyniad i adroddiad dilynol crwner, ni chaiff y newidiadau hyn eu hadlewyrchu mewn data Dangosyddion Perfformiad sydd wedi'u cyhoeddi eisoes, ond gallant gael eu hadlewyrchu mewn cyhoeddiadau a thablau ystadegol eraill ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae anaf - anafedig a gafodd anafiadau na fu'n angheuol yn golygu person a gafodd ei anafu o ganlyniad i'r tân yn uniongyrchol (ond na chafodd anafiadau angheuol) fel y cofnodir o dan God 1 Cwestiwn 9.24 y System Cofnodi Digwyddiadau (aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n rhai difrifol) a Chod 2 (aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n rhai mân). Ni ddylid cyfrif personau a oedd ag anafiadau a gafodd eu trin yn gyfan gwbl yn lleoliad y digwyddiad o dan God 3 (Cymorth cyntaf a roddwyd yn lleoliad y digwyddiad) a Chod 4 (argymhellwyd gwiriad rhagofalus). Gellir diffinio gwiriad rhagofalus yn achos o berson nad yw ag unrhyw anaf neu drallod amlwg yn cael ei anfon i'r ysbyty neu y rhoddir cyngor iddo y dylai weld meddyg ar ffurf rhagofal.   Ni ddylid cynnwys anafiadau nad ydynt yn gysylltiedig â than.

Mae tanau damweiniol yn golygu'r rhai a achosir ar ddamwain (ni chredir iddynt gael eu hachosi'n fwriadol). Mae tanau damweiniol yn cynnwys y rhai hynny yr oedd yr hyn a'u hachosodd yn anhysbys neu heb ei nodi.

Mae'r dangosydd hwn yn cyfeirio at danau yr aeth y GTA iddynt.

Dylid cyfrif galwadau tân hwyr – (Tân yr oedd yn hysbys ei fod wedi'i ddiffodd pan wnaed yr alwad (neu na fu galwad ynglŷn ag ef e.e. tân sy'n dod i sylw'r Gwasanaeth Tân ac Achub o ganlyniad i adroddiad yn y wasg neu gwest) ac y bu adnodd o'r GTA yn bresennol ynddo).

**FRS/EFR/S/003**

Mae tân adroddadwy yn golygu digwyddiad o losgi nad yw wedi'i reoli sy'n cynnwys fflamau, gwres neu fwg ac y bu'r Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yn bresennol ynddo, gan gynnwys tanau simneiau.

Mae annedd yn golygu eiddo sy'n fan preswylio parhaol. Yn ogystal ag anheddau confensiynol, mae'n cynnwys carafannau statig, anheddau parod a chychod preswyl. Nid yw'n cynnwys strwythurau dros dro neu symudol fel pebyll, pebyll mawrion, siediau, tai allan, cerbydau (gan gynnwys cerbydau hamdden sy'n cynnwys llety cysgu) a charafannau symudol.

Mae ystafell darddiad yn golygu unrhyw ofod yn yr eiddo sydd wedi'i ddiffinio ac wedi'i amgáu gan strwythur yr eiddo. Mae'n cynnwys pyllau grisiau, gwagleoedd toeau, atigau, isloriau a selerau, ond nid simneiau, ffliwiau, dwythellau neu ddodrefn storio integredig (e.e. cypyrddau sychu a wardrobau gosod).
Pan fo'r perchennog neu'r meddiannydd wedi cael gwared ar wal neu ddrws er mwyn creu gofod mwy, mae'r holl ofod hwnnw'n cyfateb i un ystafell. Mae strwythurau fel garejis, gweithdai ac ystafelloedd gwydr sy'n rhan o'r adeilad neu sydd wedi'u cysylltu ag ef, ac y gellir mynd iddynt o ran fewnol yr adeilad, hefyd yn ystafelloedd at ddibenion y dangosydd hwn.

Nid yw to yn cyfrif fel ystafell. Fodd bynnag, bydd tân sy'n dechrau ar do allanol annedd, ond sy'n cael ei ddiffodd heb iddo ledaenu i wagle'r to neu i ystafell arall yn unol â'r diffiniad uchod, yn cael ei ystyried fel tan wedi'i gyfyngu i'r ystafell darddiad at ddibenion y dangosydd hwn.

Dylai tanau anheddau mewn tai amlfeddiannaeth gael eu cynnwys yn y data ynghylch tanau anheddau. Dylai hyn gynnwys tanau a geir mewn pyllau grisiau ac ardaloedd cyffredin tai amlfeddiannaeth. Mae diffiniad o dai amlfeddiannaeth ar gael yng Nghylchlythyr W-FRSC (08)07.

Digwyddiadau Dros y Ffin – Dylid cofnodi pob digwyddiad y bu'r GTA yn bresennol ynddo. Ar gyfer digwyddiadau dros y ffin, rhaid i'r gwasanaeth tiriogaethol gynnwys pob digwyddiad yn ei ardal diriogaethol p'un a fu'n bresennol yn y digwyddiad neu beidio. Mae canllawiau pellach ar gofnodi digwyddiadau dros y ffin wedi'u llunio gan y 3 Gwasanaeth yng Nghymru.

Mae tân wedi'i gyfyngu i'r ystafell darddiad yn golygu tân a gofnodwyd yn y System Cofnodi Digwyddiadau gydag ymateb cadarnhaol i un o'r cwestiynau canlynol:-
- Cwestiwn 8.19 – Niwed gwres a/neu mwg yn unig; neu
- Cwestiwn 8.22 – lle bo un o'r canlynol yn berthnasol: Cod 1 – Cyfyngu i'r eitem 1af a daniodd, Cod 2 – Cyfyngu i'r ystafell darddiad, Cod 30 – Gwagle to yn unig, neu Cod 32 – To allanol yn unig.

## Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon



Yn ôl at yr Hafan

**Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.**

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Cynhwyswch amser sydd wedi'i dreulio ar weithgareddau yn darparu ac anfon y ffurflen hon, megis:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac
- Anfon y ffurflen i Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad trwy Objective Connect.

| Gradd y staff | Oriau wedi'u cymryd | V1 |
|---|---|---|
| Band 1 (£11,500 - £19,999) | | ✘ |
| Band 2 (£20,000 - £26,999) | | ✘ |
| Band 3 (£27,000 - £33,999) | | ✘ |
| Band 4 (£34,000 - £53,999) | | ✘ |
| Band 5 (£54,000+) | | ✘ |

**Sylwadau**

**Dangosyddion Perfformiad Strategol**

**Dangosyddion Perfformiad Strategol 2023-24**

**Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol**

**Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared**

Yn ôl at yr Hafan

**Digwyddiadau tân ac eraill y bu Awdurdod Tân ac Achub ynddynt.**

FRS/RRC/S/002

Fformiwlâu

**2023-24**

| Cyfeirnod | Dangosydd | Eitem(au) Data | 2023-24 | 2022-23 | V1 | V2 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FRS/RRC/S/001i | i) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | a = cyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd iddynt | | | C | M | |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | 0 | 0 | √ | √ | |
| | | **Gwerth DP** | | | C | M | |
| FRS/RRC/S/001v | ii) Cyfanswm y galwadau diangen yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | c = cyfanswm y galwadau diangen yr aeth yr Awdurdod Tân ac Achub iddynt: | | | C | M | |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | 0 | 0 | √ | √ | |
| | | **Gwerth DP** | | | C | M | |
| FRS/RRC/S/001vi | iii) Cyfanswm y Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | d = cyfanswm nifer y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd yr aeth yr Awdurdod Tân ac Achub iddynt: | | | C | M | |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | 0 | 0 | √ | √ | |
| | | **Gwerth DP** | | | C | M | |
| FRS/RRC/S/001vii | iv) Cyfanswm y digwyddiadau eraill yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | e = cyfanswm nifer yr holl ddigwyddiadau brys eraill yr aeth yr Awdurdod Tân ac Achub iddynt. | | | C | M | |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | 0 | 0 | √ | √ | |
| | | **Gwerth DP** | | | C | M | |

**Dangosyddion Perfformiad Strategol**

**Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol**

**Digwyddiadau tân ac eraill y bu Awdurdod Tân ac Achub ynddynt.**

Dangosydd



| Cyfeirnod | Dangosydd | Eitem(au) Data | Ffynhonnell(au) data | Cyfrifiad | Fformat |
|---|---|---|---|---|---|
| FRS/RRC/S/001i | i) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | a = cyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd iddynt | a, c, d, ac e = System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth Tân ac Achub | (a/b) x 10,000 | N, 1dp |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | b = Data poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn yn ôl Awdurdod Lleol.<br><br>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year | | |
| FRS/RRC/S/001ii | ii) Cyfanswm y galwadau diangen yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | c = cyfanswm y galwadau diangen yr aeth yr Awdurdod Tân ac Achub iddynt: | a, c, d, ac e = System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth Tân ac Achub | (c/b) x 10,000 | N, 1dp |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | b = Data poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn yn ôl Awdurdod Lleol.<br><br>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year | | |
| FRS/RRC/S/001iii | iii) Cyfanswm y Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | d = cyfanswm nifer y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd yr aeth yr Awdurdod Tân ac Achub iddynt: | a, c, d, ac e = System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth Tân ac Achub | (d/b) x 10,000 | N, 1dp |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | b = Data poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn yn ôl Awdurdod Lleol.<br><br>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year | | |
| FRS/RRC/S/001iv | iv) Cyfanswm y digwyddiadau eraill yr aethpwyd iddynt fesul 10,000 o bobl | e = cyfanswm nifer yr holl ddigwyddiadau brys eraill yr aeth yr Awdurdod Tân ac Achub iddynt. | a, c, d, ac e = System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth Tân ac Achub | #VALUE! | N, 1dp |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | b = Data poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn yn ôl Awdurdod Lleol.<br><br>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year | | |

**Dangosyddion Perfformiad Strategol**

**Dangosyddion Perfformiad Strategol 2023-24**

**Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol**

**Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared**

Yn ôl at yr Hafan

**Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân**

Fformiwlâu

FRS/EFR/S/003

| Cyfeirnod | Dangosydd | Eitem(au) Data | 2023-24<br>2023-24 | 2023-24<br>2022-23 | V1 | V2 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FRS/RRC/S/002vii | i) Marwolaethau a'r anafiadau a ddeilliodd o'r holl danau am bob 100,000 o'r boblogaeth; | a = cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân | | | C | M | |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | 0 | 0 | √ | √ | |
| | | **Gwerth DP** | | | C | M | |
| FRS/RRC/S/002viii | ii) Marwolaethau a'r anafiadau a ddeilliodd o danau damweiniol am bob 100,000 o'r boblogaeth. | c = cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau a achoswyd gan danau a gafodd eu cychwyn yn ddamweiniol: | | | C | M | |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | 0 | 0 | √ | √ | |
| | | **Gwerth DP** | | | C | M | |

# Dangosyddion Perfformiad Strategol

## Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol

### Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân

Yn ôl at yr Hafan

Dangosydd

| Cyfeirnod | Dangosydd | Eitem(au) Data | Ffynhonnell(au) data | Cyfrifiad | Fformat |
|---|---|---|---|---|---|
| FRS/RRC/S/002i | i) Marwolaethau a’r anafiadau a ddeilliodd o’r holl danau am bob 100,000 o’r boblogaeth; | a = cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân | a + c = System Cofnodi Digwyddiadau Tân ac Achub | (a/b) x 100,000 | N, 2pd |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | b = Data poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn yn ôl Awdurdod Lleol.<br><br>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year | | |
| FRS/RRC/S/002ii | ii) Marwolaethau a’r anafiadau a ddeilliodd o danau damweiniol am bob 100,000 o’r boblogaeth. | c = cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau a achoswyd gan danau a gafodd eu cychwyn yn ddamweiniol: | a + c = System Cofnodi Digwyddiadau Tân ac Achub | (c/b) x 100,000 | N, 2pd |
| | | b = poblogaeth ardal yr ATA | b = Data poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn yn ôl Awdurdod Lleol.<br><br>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year | | |

## Dangosyddion Perfformiad Strategol

**Dangosyddion Perfformiad Strategol 2023-24**

### Ymateb Effeithiol

**Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared**

Yn ôl at yr Hafan

### Tanau wedi'u Cyfyngu i'r Ystafell Darddiad

Fformiwlâu

| | | | 2023-24 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Dangosydd** | **Eitem(au) Data** | **2023-24** | **2022-23** | **V1** | **V2** | **Sylwadau** |
| FRS/EFR/S/003 | Canran y tanau anheddau a gafodd eu cyfyngu i'r ystafell lle y gwnaethant gychwyn. | a = Cyfanswm nifer y tanau anheddau a oedd wedi'u cyfyngu i'r ystafell darddiad | | | C | M | |
| | | b = nifer yr adeiladau annomestig yn ardal yr ATA | | | C | M | |
| | | **Gwerth DP** | | | C | M | |

## Dangosyddion Perfformiad Strategol



### Ymateb Effeithiol

Yn ôl at yr Hafan

### Tanau wedi'u Cyfyngu i'r Ystafell Darddiad

Dangosydd

| Cyfeirnod | Dangosydd | Eitem(au) Data | Ffynhonnell(au) data | Cyfrifiad | Fformat |
|---|---|---|---|---|---|
| FRS/EFR/S/003 | Canran y tanau anheddau a gafodd eu cyfyngu i'r ystafell lle y gwnaethant gychwyn. | a = Cyfanswm nifer y tanau anheddau a oedd wedi'u cyfyngu i'r ystafell darddiad | System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth Tân ac Achub | (a/b) x 1,000 | N, 2pd |
| | | b = nifer yr adeiladau annomestig yn ardal yr ATA | System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth Tân ac Achub | | |